



YSGOL GYMRAEG YSTALYFERA-BRO DUR

Cynllun Gwariant GDD 2026-27



Datganiad Grant Datblygu Disgyblion Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur

Mae Grant Datblygu Disgyblion i ysgolion â disgyblion sy'n dod o deuluoedd incwm isel ac sydd ar hyn o bryd yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (e-FSM) a disgyblion sydd wedi derbyn gofal yn barhaus am fwy na chwe mis (LAC).

Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r cyllid hwn i'r eithaf i gyflwyno strategaethau cynaliadwy fydd yn arwain yn gyflym at newidiadau i ddysgwyr sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim neu sy'n LAC. Disgwylir i ysgolion ddefnyddio'r grant er mwyn:

1. Yn gyntaf, bod y GDD yn cael ei ddefnyddio, drwy waith yn y meysydd allweddol, i wella cyrhaeddiad plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel.
2. Yn ail, bod y defnydd o'r grant yn cael ei lywio gan dystiolaeth ar yr hyn sy'n effeithiol wrth wella cyrhaeddiad dysgwyr o aelwydydd incwm isel.
3. Yn drydydd, bod ysgolion yn monitro'r defnydd o'r GDD ac yn gwerthuso'r effaith y mae'n ei chael ar gyrhaeddiad dysgwyr.

Mae Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur wedi derbyn **£259,900** drwy Grant Datblygu Disgyblion (GDD) ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026-27. Nod y grant yw lleihau effaith tlogi ac amddifadedd ar gyrhaeddiad, cynnydd a lles dysgwyr, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i gyflawni ei botensial. Mae ein cynllun gwariant wedi'i gynllunio i gefnogi dysgwyr sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ac eraill sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r cyllid i ddarparu strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwella canlyniadau addysgol, cryfhau lles a chodi dyheadau.





Prif Flaenoriaethau'r Gwariant

Mae'r grant yn cael ei ddefnyddio i:

- Darparu cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr drwy anogwyr dysgu, mentoriaid ac ymyriadau unigol a grŵp bach.
- Datblygu medrau llythrennedd, iaith a chyfathrebu ar draws y continwum 3-18.
- Cefnogi datblygiad dysgwyr annibynnol, gwydn ac uchelgeisiol drwy raglenni mentora a datblygu metawybyddiaeth.
- Gwellu lles, presenoldeb, ymgysylltiad a dyheadau dysgwyr sydd mewn perygl o dangyflawni.
- Datblygu gallu staff drwy hyfforddiant ac arweinyddiaeth er mwyn sicrhau addysgu o ansawdd uchel i bob dysgwr.

Sut mae'r Cyllid yn Cael ei Ddefnyddio?

Mae'r mwyafrif helaeth o'r grant yn cael ei fuddsoddi mewn staffio a chymorth dysgu. Mae hyn yn cynnwys anogwyr dysgu, swyddogion cynhwysiant, arweinwyr blwyddyn, rheolwyr ymyrraeth, swyddogion iaith ac athrawon sy'n arwain rhaglenni llythrennedd, rhifedd a lles.

Yn ogystal, defnyddir y grant i:

- Ariannu rhaglenni llythrennedd a rhifedd wedi'u targedu.
- Cefnogi llwybrau dysgu hyblyg a dysgwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET.
- Lleihau rhwystrau ariannol i gyfranogi mewn ymweliadau addysgol, gweithgareddau cyfoethogi a phrofiadau preswyl.
- Cefnogi systemau monitro fel ClassCharts i wellu presenoldeb ac ymgysylltiad.
- Cryfhau'r bartneriaeth rhwng yr ysgol, teuluoedd ac asiantaethau cymunedol.

Y Effaith a Ddisgwyllir

Drwy'r buddsoddiad hwn, rydym yn anelu at leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr difreintiedig a'u cyfoedion, gwella presenoldeb ac ymgysylltiad, datblygu medrau llythrennedd a chyfathrebu, a sicrhau bod mwy o ddysgwyr yn trosglwyddo'n llwyddiannus i addysg ôl-16, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae'r cynllun yn adlewyrchu ymrwymiad Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur i ddarparu addysg gynhwysol o ansawdd uchel a sicrhau bod cefndir economaidd plentyn byth yn rhwystr i'w lwyddiant



Cytunwyd gan y Corff Llywodraethol

Cytunwyd:

Laurel Davies

Pennaeth

Tudur Jones

Cadeirydd